CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Potio hamdden: terfynau dal dyddiol ar gyfer deiliaid trwydded

Y swm gall deiliaid trwydded glanio mewn un diwrnod o, cimwch, cimwch coch, crancod, corgimwch, a chregyn moch.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 6 Mehefin 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 6 Mehefin 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/potio-hamdden-terfynau-dal-dyddiol-ar-gyfer-deiliaid-trwydded-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Is-ddeddf 31: terfynau dal**

**Is-ddeddf 31: gwarchod cimychiaid v-fylchog**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/potio-hamdden-terfynau-dal-dyddiol-ar-gyfer-deiliaid-trwydded-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Is-ddeddf 31: terfynau dal

1. Ni chaiff unrhyw un, ond yn unol â pharagraff 5, bysgota, cymryd neu lanio, o unrhyw bysgodfa oddi mewn i'r Rhanbarth, unrhyw un o'r rhywogaethau a restrir isod. Rhaid glanio'r holl bysgod o'r fath ar yr un diwrnod calendr a'u daliwyd ac ni chaniateir cadw'r pysgod hyn yn y môr mewn cawell gadw neu unrhyw declyn o'r fath.

| **Rhywogaeth** | **Uchafswm y nifer dyddiol** |
|---|---|
| Cimychiaid (Homarus gammarus) | 2 unigolyn |
| Cimychiaid Coch (Palinurus elephas) | 1 unigolyn |
| Crancod bwytadwy (Cancer pagurus)<br>Crancod heglog (Maia squinado)<br>Crancod llygatgoch (Liocarcinus puber) | Cyfanswm cyfunol o 5 unigolyn |
| Corgimychiaid (Pandalidae and Palaemonidae) | 1 cilogram |
| Cregyn moch (Buccinum undatum) | 5 cilograms |

2. Ni chaiff unrhyw un, ond yn unol â pharagraff 5, bysgota trwy ddefnyddio cewyll neu drapiau, yn unrhyw ran o'r Rhanbarth, ac eithrio yn ôl hawliad Llywodraeth Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/potio-hamdden-terfynau-dal-dyddiol-ar-gyfer-deiliaid-trwydded-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Is-ddeddf 31: gwarchod cimychiaid v-fylchog

1. Mae'r is-ddeddf hon yn berthnasol i'r rhan o'r Rhanbarth oddi mewn i linell a dynnwyd ar ochr atfor y llinellau sylfaen 6 môr-filltir o'r llinellau sylfaen y mesurir lled y môr tiriogaethol sydd yn gyfagos i'r Deyrnas Unedig.
2. At ddibenion y paragraff hwn y mae y "llinellau sylfaen" yn gyfystyr a'r llinellau sylfaen mewn bodolaeth ar 25 Ionawr, 1983, yn unol â Gorchymyn Dyfroedd Tiriogaethol Cyngor 1964 (1965 III t.6452A) ac a ddiwygiwyd gan Orchymyn Dyfroedd Tiriogaethol (Gwelliant) Cyngor 1979 (1979 II t.2866).
3. Ni chaiff unrhyw un bysgota am neu gymryd unrhyw gimwch o'r rhywogaeth Homarus gammarus sydd wedi ei V-fylchu gyda bwlch o ffurf llythyren "V" yn un neu fwy o bum fflap gwyntyll y cynffon, neu wedi ei nodi mewn unrhyw ffordd arall neu wedi ei anafu mewn ffordd a olygir fod unrhyw un o bum fflap y cynffon ar goll neu wedi ei anafu mewn ffordd a allai guddio neu ddifetha'r V-fwlch neu unrhyw farc arall.
4. Dylir dychwelyd unrhyw gimwch sydd wedi ei nodi yn y ffordd yma i'r môr ar unwaith.

**Nodyn cynghori:**

Cimychiaid Coch a Chimychiaid Wyog (Diffiniad: "Cimwch neu gimwch coch sy'n cario wyau sydd ynghlwm wrth ei gynffon neu ddarn allanol arall, neu a oedd yn cario wyau pan gafodd ei ddal")

**Am resymau cadwraeth cynghorir y dylai Cimychiaid Coch a Chimychiaid Wyog gael eu dychwelyd i'r môr ar unwaith bob amser.**

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/potio-hamdden-terfynau-dal-dyddiol-ar-gyfer-deiliaid-trwydded-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.